

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL
10 MEHEFIN 2021

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd drwy fynychu o bell ddydd Iau, 10 Mehefin 2021.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Haydn Bateman, Sean Bibby, Geoff Collett, Mared Eastwood, Patrick Heesom, Richard Jones, Richard Lloyd, Kevin Rush, Paul Shotton, Andy Williams ac Arnold Woolley

YMDDIHEURIADAU: Cynghorydd Ian Roberts- Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg

CYFRANWYR: Cynghorydd Billy Mullin – Dirprwy Arweinydd (Llywodraethu) ac Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau, Cynghorydd Paul Johnson – Aelod Cabinet Cyllid, Gwerth Cymdeithasol a Chaffael, Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, Ymgynghorydd Perfformiad Strategol, Ymgynghorydd Polisi Strategol a Rheolwr Budd-daliadau.

HEFYD YN BRESENNOL: Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

1. PENODI CADEIRYDD

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y cadarnhawyd yng Nghyfarfod Blyneddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor fod o'r Grŵp Ceidwadol. Cafodd y Pwyllgor wybod fod y Cynghorydd Clive Carver wedi cael ei benodi i'r rôl ar gyfer blwyddyn y cyngor.

PENDERFYNWYD:

Nodi penodiad y Cynghorydd Clive Carver fel Cadeirydd y Pwyllgor.

2. PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebodd y Cynghorydd Paul Shotton y Cynghorydd Geoff Collett fel Is-gadeirydd y Pwyllgor, ac fe eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Richard Lloyd. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. O'i roi i bleidlais, cymeradwywyd hyn.

PENDERFYNWYD:

Penodi'r Cynghorydd Geoff Collett yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

3. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

4. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2021, yn amodol ar ddiwygiad i gofnodi ymddiheuriad y Cynghorydd Patrick Heesom oherwydd problemau cysylltu.

Ar y sail honno, cafodd y cofnodion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Paul Shotton a Geoff Collett.

PENDERFYNWYD:

Yn amodol ar y diwygiad, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

5. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn nodi cynnydd ar gamau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Geoff Collett a Mared Eastwood.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

6. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol i'w hystyried, gyda chyfarfodydd yn canolbwyntio ar bum prif elfen: Strategaeth, Cyllid, Perfformiad, Partneriaethau a Rheoleiddio. Byddai adroddiad Archwilio Cymru ar gynaliadwyedd ariannol yn cael ei gynnwys ym mis Medi.

Fel y nodwyd yn flaenorol, gofynnodd y Cynghorydd Richard Jones am adroddiad cynharach ar thema Tlodi yr oedd y Pwyllgor yn gyfrifol amdano yn awr, o ystyried pwysigrwydd y testun. Croesawodd awgrym y Prif Weithredwr am gyfarfod arbennig ar y testun ar ddiwedd Gorffennaf, a chynnig hyn fel argymhelliad ychwanegol.

Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai rhaglenni gwaith i'r dyfodol y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu angen rhyw elfen o hyblygrwydd i ddelio â materion ychwanegol a risgiau a allai gael eu cyfeirio gan y Pwyllgor Adfer newydd.

Gofynnodd y Cynghorydd Patrick Heesom am adroddiad ar ganlyniad ymgynghoriad Llywodraeth Cymru (LIC) ar Gydbwyllgorau Cyfunol a'r goblygiadau ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Eglurodd y Prif Weithredwr na chafwyd unrhyw gynigion cadarn gan LIC eto ac y byddai unrhyw adroddiadau yn y dyfodol yn cael eu rhannu gyda'r Cabinet a'r Pwyllgorau perthnasol.

Yn amodol ar ychwanegu cyfarfod arbennig, cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr Patrick Heesom a Richard Jones.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; fel y'i diwygiwyd yn y cyfarfod;
a
- (b) Bod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

7. YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y STRATEGAETH ADFER

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Adfer newydd a sefydlwyd i gydlynu ail gam adfer trwy gyfeirio risgiau a materion at y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol. Byddai'r gyfres newydd o amcanion adfer corfforaethol yn cael eu hargymell i'r Pwyllgor Adfer i'w mabwysiadu yn eu cyfarfod cyntaf.

Siaradodd y Cynghorydd Richard Jones - a fydd yn cadeirio'r Pwyllgor Adfer - am y cylch gwaith ac aelodaeth drawsbleidiol.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Richard Jones a Patrick Heesom.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad ac yn aros am ganllawiau gan y Pwyllgor Adfer ar y risgiau a'r materion i'w hadolygu'n fanylach o fewn ei Gylch Gorchwyl fel rhan o'r rhaglen gwaith i'r dyfodol.

8. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad monitro diwedd blwyddyn i adolygu cynnydd diwedd blwyddyn yn erbyn y blaenoriaethau corfforaethol sy'n berthnasol i'r Pwyllgor fel y nodwyd ym Mesurau Adrodd y Cyngor 2020/21. Ar y cyfan roedd yn adroddiad cadarnhaol o ystyried yr heriau o'r sefyllfa o argyfwng, gyda 67% o'r dangosyddion perfformiad yn diwallu neu'n rhagori ar eu targedau.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, siaradodd yr Ymgynghorydd Perfformiad Strategol am effaith yr argyfwng ar dargedau a thueddiadau. Dywedodd bod y data yn dangos bod y Cyngor wedi cynnal cofnod da o ran perfformiad a chynllunio effeithiol gan barhau i fod yn uchelgeisiol.

Eglurodd y Cynghorydd Richard Jones bod effeithiau'r cyfnod argyfwng wedi'i gwneud yn anodd cymharu perfformiad gyda'r blynyddoedd blaenorol.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod rhai o'r targedau perfformiad wedi'u haddasu yn ystod y cyfnod ac mai un o'r amcanion ar gyfer adfer yw ailosod yr holl dargedau ac ailddechrau cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn sylwadau cadarnhaol gan y Cynghorydd Patrick Heesom ar arddull yr adroddiad a gyhoeddwyd, diolchodd y swyddogion i'r Ymgynghorydd

Perfformiad Strategol am ei waith i gasglu a chyflwyno data mewn arddull y gellir ei ddarllen.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Heesom a Shotton.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn derbyn yr Adroddiad Monitro Perfformiad Diwedd Blwyddyn a bydd yn monitro meysydd sy'n tanberfformio a cheisio gwybodaeth bellach fel y bo'n briodol; a
- (b) Bod y Pwyllgor wedi cael ei sicrhau gan yr eglurhad a roddwyd ar gyfer tanberfformio, sy'n cael eu hegluro'n bennaf gan yr aflonyddwch a achosodd y pandemig.

9. DECHRAU DYLETYSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar baratodau'r Cyngor ar gyfer dechrau'r ddyletyswydd economaidd-gymdeithasol. Roedd hyn yn ofyniad statudol ar gyrff cyhoeddus perthnasol i roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol.

Darparodd yr Ymgynghorydd Polisi Strategol a'r Rheolwr Budd-daliadau gyflwyniad ar y cyd yn ymdrin â'r canlynol:

- Beth yw'r Ddyletyswydd Economaidd-Gymdeithasol a beth mae'n ei wneud?
- Telerau Allweddol
- Anghydraddoldebau canlyniadau
- Enghreifftiau o dlodi
- Dangos sylw dyledus – trywydd archwilio
- Diwallu'r ddyletyswydd – beth ydym ni'n ei wneud
- Canlyniadau gwell
- Astudiaeth Achos

Darparodd y cyflwyniad enghreifftiau ehangach o dlodi a oedd yn cysylltu ag un o'r blaenoriaethau o fewn Cynllun y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda'r holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu i godi ymwybyddiaeth o'r ymrwymadau newydd. Ymysg y camau gweithredu, byddai cynnwys canlyniadau Asesiad o Effaith Integredig ar adroddiadau pwyllgor yn gymorth i ddangos ystyriaeth o effeithiau posibl tlodi wrth wneud penderfyniadau strategol. Fel y gofynnwyd, byddai copïau o'r cyflwyniad yn cael eu dosbarthu ar e-bost i'r Pwyllgor.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cadeirydd ar effaith tlodi digidol, siaradodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) am y gwaith i wella cysylltedd digidol a byddai'n rhannu manylion cyswllt y swyddog perthnasol. Cymrodd y cyfle i dynnu sylw at friffio Aelodau ar y Strategaeth Ddigidol yn fuan.

Cydnabu'r Cynghorydd Patrick Heesom bwysigrwydd yr adroddiad o ystyried y materion hyn, a chyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno newid a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Fel y gofynnwyd gan y Cadeirydd, byddai'r swyddogion yn darparu ymateb ar wahân ar niferoedd sydd wedi derbyn brechlynnau yn Sir y Fflint.

Gan groesawu'r adroddiad, diolchodd y Cynghorydd Paul Shotton i'r Rheolwr Budd-daliadau am ei gwaith i fynd i'r afael â thlodi bwyd. Mewn ymateb i ymholiad, siaradodd am bwysigrwydd gweithio gyda chymunedau i ddeall effaith lawn anghydraddoldebau i breswylwyr a nodi camau i fynd i'r afael â hynny.

Croesawodd y Cynghorydd Richard Jones ystyriaeth y ddyletswydd ar lefel strategol a chynnig argymhelliad ychwanegol bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad chwarterol i ddangos sut yr oedd hyn yn cael ei wneud. Roedd y Cynghorydd Paul Shotton yn eilio.

Ar y sail honno, cefnogwyd yr argymhellion.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn nodi gofynion y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.
- (b) Bod y Pwyllgor yn sicr bod y Cyngor yn barod i ddiwallu ei ddyletswydd newydd; a
- (c) Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad chwarterol i ddangos sut mae gofynion y ddeddfwriaeth yn cael eu hystyried ar gyfer adroddiadau strategol.

10. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am, a gorffennodd am 11.10am)

.....
Y Cadeirydd